# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 19 Gorffennaf 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

# 86(v3)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**

Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y dirywiad mewn diogelwch mewn carchardai ieuenctid yn sgil cyhoeddi adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Carchardai Cymru a Lloegr EM ar gyfer 2016-17?

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig:**

David Melding (Canol De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y canllawiau cyfredol ar gyfer rheoli a chael gwared ar strwythurau peryglus, ar ôl i ddyn farw pan ddisgynnodd adeilad yn Sblot ddoe?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid: Diwygio Cyllidol - Gwersi gan yr Alban

(30 munud)

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gyfoeth Naturiol Cymru: Craffu ar adroddiad blynyddol a chyfrifon 2015-16

(60 munud)

**NDM6366** Nick Ramsay (Mynwy)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gyfoeth Naturiol Cymru: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16 - a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mehefin 2017.

Nodyn: Cafodd ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r adroddiad ei dderbyn a'i gyhoeddi ar wefan y pwyllgor ar 5 Gorffennaf 2017 (Saesneg yn unig).

**Dogfen ategol:**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.5 i ymestyn penodiad Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

(5 munud)

**NDM6369** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Pharagraffau 5(1) a 5(3) o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ac o dan Reol Sefydlog 10.5, yn ymestyn penodiad Isobel Garner fel cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru am dair blynedd arall.

'Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013'

**Dogfen ategol:**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 8 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig

(60 munud)

**NDM6371** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn credu:

a) bod Brexit yn galluogi pobl Cymru i gael mwy o reolaeth dros eu bywydau eu hunain drwy ddatganoli pwerau llywodraethol o dechnocrats anetholedig ym Mrwsel i Aelodau'r Cynulliad yng Nghaerdydd ac Aelodau Seneddol yn San Steffan;

b) y gall Brexit greu mwy o ffyniant ar gyfer amaethyddiaeth a'r economi wledig, drwy ddisodli'r CAP gan bolisi amaethyddol wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer anghenion penodol Cymru, gan gyfeirio'n arbennig at gadwraeth a diogelu'r amgylchedd yn seiliedig ar egwyddorion gwyddonol gan achosi costau cymesur i drethdalwyr a busnesau gwledig.

2. Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu polisïau eraill wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer ardaloedd gwledig o fewn agenda lleoliaeth sy'n grymuso pobl leol drwy:

a) gwneud penderfyniadau cynllunio mawr gydag effaith andwyol sylweddol ar ansawdd bywyd, megis ffermydd gwynt ymwthiol, yn amodol ar refferenda lleol;

b) gwneud newidiadau mawr i'r ddarpariaeth o ysgolion gwledig a gwasanaethau addysgol eraill yn amodol ar ymgynghori lleol dilys;

c) hwyluso tai gwledig mwy fforddiadwy; a

d) rhoi mwy o flaenoriaeth i ddarparu cyfleusterau GIG mewn trefi gwledig llai.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn credu bod gadael yr Undeb Ewropeaidd yn cynnig y cyfle i ddatganoli mwy o bwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

2. Yn cydnabod y bydd cyfle i leihau faint o fiwrocratiaeth sy'n wynebu ffermwyr Cymru ac yn disgwyl i Lywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i gyflwyno fframwaith ôl-Brexit sy'n cefnogi ffermwyr Cymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i gefnogi cymunedau gwledig ledled Cymru, drwy ddatblygu mwy o bolisïau wedi'u teilwra'n arbennig ym meysydd iechyd, addysg a thai.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn credu bod y dull gweithredu presennol o ran Brexit drwy Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) Llywodraeth y DU yn rhwystro'r Cynulliad rhag arfer pwerau

datganoledig ac yn peryglu'r rheolaeth sydd gan bobl yng Nghymru dros eu bywydau.

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6370** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Gamblo cymhellol yng Nghymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 19 Medi 2017